**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**National Assembly for Wales**
Standards of Conduct Committee

Y Fonesig Primarolo DBE PC
Cadeirydd y Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

4 Mehefin 2019

**Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad - rhan un**

Annwyl y Farwnes Primarolo

Trafododd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yr Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad - rhan un yn ei gyfarfod ar 21 Mai 2019, yn sgil ein hargymhellion yn adroddiad 03-18 yn ymwneud â Gareth Bennett yn sefydlu swyddfa ranbarthol.

Croesewir y ffaith bod awgrymiadau a wnaed gan y Pwyllgor a'r Comisiynydd Safonau wedi'u cynnwys yn y penderfyniad hwn. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd hyn yn sicrhau eglurder y mae mawr ei angen i'r broses ac yn helpu'r Aelodau i ddilyn y rheolau. Er ein bod yn cymeradwyo'r awgrym ym mharagraff 3.15 yn llawn y 'dylai fod yn ofynnol i Aelodau ofyn am gyngor cyfreithiol ar eu prydlesi swyddfa ac adneuo copi o'u prydles i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau', rydym yn pryderu ynghylch yr effaith bosibl ar lwfans Aelodau'r Cynulliad os oes rhaid talu am y costau cyngor cyfreithiol o fewn y ddarpariaeth bresennol. Credwn y gallai hyn gael effaith negyddol sylweddol ar gyllidebau'r Aelodau a byddem yn gofyn i chi ystyried cael cronfa annibynnol ar gyfer hyn neu fod Comisiwn y Cynulliad yn penodi arbenigwr cyflogi penodedig o fewn y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau neu'r gwasanaethau cyfreithiol er mwyn i Aelodau ei ddefnyddio.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSafonau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddSafonau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddStandards@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddStandards
0300 200 6565

Yn ystod ein trafodaeth, nododd yr Aelodau nifer o bryderon eraill ynghylch y penderfyniad hefyd:

- Roedd yr Aelodau yn pryderu y gallai'r penderfyniad arwain at ofyniad i ddodrefn swyddfa gael eu prynu'n ganolog o gontract generig. Roeddent yn pryderu bod hyn yn cyfyngu arnynt yn ormodol ac y byddai'n well ganddynt allu prynu dodrefn yn lleol. Teimlwyd bod hyn yn unol ag amcanion ehangach y Comisiwn ynghylch caffael lleol, ac y gallai sicrhau gwell gwerth am arian.

- Roedd y newidiadau arfaethedig ym mharagraff 3.11 a oedd yn nodi'r egwyddorion ar gyfer swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol Aelodau'r Cynulliad hefyd yn peri pryder i'r Aelodau. Mae'n bosibl nad yw'r gofyniad y gellir cyrraedd pob swyddfa drwy drafnidiaeth gyhoeddus bob amser yn bosibl mewn rhai ardaloedd o Gymru wledig, ac mae'n ymddangos ei fod yn gyfyngiadol iawn, ac yn canolbwyntio ar drefi. Teimlai Aelodau y byddai'n well pwysleisio bod Aelodau'r Cynulliad yn sicrhau eu bod yn hygyrch i etholwyr yn hytrach na gosod cyfyngiad ar leoliad y swyddfa.

Gobeithio bod yr arsylwadau hyn yn ddefnyddiol, ac mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

Yn gywir



Jayne Bryant
**Cadeirydd**